

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Rhagfyr 11, 2018 am 7.30 o'r gloch.**

Presennol: Cyngorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), John Hughes, Simon Evans, Elfed ap Gomer. Hefyd Peredur Jenkins, Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Llinos Williams, Paul Williams, Gareth Ellis.

2. Datgan diddordeb:

Roedd Elfed ap Gomer yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 5.d.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Tachwedd 13, 2018

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Tachwedd 13, 2018

Eitem 10.a. Llythyr (14/11/2018) oddi wrth Rheolwr Stadau. Mae'n rhoi gwybod nid yw Cyngor Gwynedd yn dymuno derbyn meddiant y toiledau yn ol os gall osgoi hynny. Mae'n bosib i ni ildio'r brydles bresenol a pharhau i'w arddel hyd nes bydd un newydd mewn lle, gelwir hyn yn 'holding over' gan amlaf ac mae'n drefniant cyffredin ar ddiwedd prydles. Os rydym am ildio bydd angen i ni drefnu dychwelyd goriadau'r eiddo.

Cafwyd gwybod (11/12/2018) bod archwiliad o'r adeilad wedi cael ei wneud gan Swyddog o Cyngor Gwynedd.

Eitem 10.b. Llythyr ateb (26/11/2018) oddi wrth Amgylchedd Hanesyddol, Cadw Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod maent yn rhoi ystyried i Halfway House, ac mi fyddant yn rhoi gwybod eu penderfyniad pan fydd yr ymholiadau wedi eu cwblhau.

5. Materion Ariannol

a. Derbyniwyd (26/11/2018) £175 oddi wrth Glyn Rees a'i Fab. Taliad at Jacqueline Elaine Walker. Claddu gweddillion o'r amlogfa.

b. Llythyr (26/11/2018) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gwariant Adran 137 y Terfyn ar Gyfer 2019-20. Maent yn rhoi gwybod gall Cyngorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20 £8.12, am bob etholwr, i sefydliadau sydd angen arian.

Bydd yr uchafswm yn $£8.12 \times 378 = £3,069.36$.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION RHAGFYR 11, 2018

c. Bil (27/11/2018) am £426.90 oddi wrth Swyddfa Archwiliad Cymru. Mae'r taliad am Archwiliad o Gyfrifon 2017/18 y Cyngor gwnaethpwyd gan BDO. (Llynedd roedd y bil am £233.40)

Penderfynwyd talu'r bil.

ch. Bil (28/11/2018) am £1,696.00 oddi wrth A.M. Ashton. Mae'r taliad am wneud gwaith cynnal a chadw'r fynwent ac am wneud gwaith clirio eiddew o amgylch lloches bws Taicynhaef.

Penderfynwyd talu'r bil.

d. Bil (2/12/2018) am £184.00 oddi wrth Elfed ap Gomer am adnewyddu gwefan y Cyngor cyn Mawrth 1, 2019.

Penderfynwyd talu'r bil.

dd. Llythyr (27/11/2018) oddi wrth Cyllid, Cyngor Gwynedd. Maent angen gwybod ein praesept am 2019 / 2020. Maent angen y wybodaeth erbyn dydd Gwener, Ionawr 25, 2019.

Praesept 2017 /2018 - £7,500.00. Praesept 2018 /2019 - £7,500.00.

Rhodddwyd manylion o'r amcan gyfrif costau y Cyngor am 2018 / 2019 a manylion at praesept 2019 / 2020 i'r aelodau. Mae angen eu cadarnhau a chofnodi.

Penderfynwyd trafod y mater yn y cyfarfod nesaf.

e. Mae angen arwyddo ffurflen HSBC i gywiro camgymeriad dyddiad taliadau i'r Clerc ac i HMRC.

Arwyddwyd y ffurflen.

f. Llythyr (3/12/2018) oddi wrth HSBC Safeguard yn rhoi gwybod maent wedi ymestyn y dyddiad o Rhagfyr 6 2018 i Ionawr 5, 2019 i ni ddiweddarau a chadarnhau ein manylion busnes. Nid ydynt yn rhoi gwybod pa fanylion maent eu hangen.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i Commercial Customer Relations HSBC am arweiniad (6/12/2018) ac anfonodd hwy y llythyr ymlaen i Complaint Advocate oedd yn gwneud y gwaith ar ein rhan.

Penderfynwyd i Peredur Jenkins trafod y llythyr gyda swyddogion banc HSBC Dolgellau.

ff. Balans yn y banc ar 29 Tachwedd 2018: £10,902.70.

6. Mynwent Llanelltyd

a. Llythyr (7/11/2018) oddi wrth Sally Kerkhoff, Yr Iseldiroedd. Cyn symud i'r Iseldiroedd yn 2009 roedd y teulu yn byw yn Lletywyn, Bontddu a Bryn y Mor, Bontddu. Mae'r teulu yn berchen ar dri bedd (Patricia Jean Corry, Martin Corry a D.C. Corry).

Maent yn holi am:

yr hawl i ddefnyddio bedd Patricia Corry neu fedd Martin Corry i gladdu gasgedi llwch yn y dyfodol. Maent o'r farn mae hawl i gladdu chwe gasged mewn bedd; cadarnhaodd Glyn Rees & Son bod hyn yn gywir.

yr hawl i brynu bedd newydd i dderbyn gasgedi wrth ochr bedd Patricia Corry. y costau i'w dalu.

enw saer maen lleol i wneud y gwaith argraffu.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i Geraint Rowlands a John Hughes am eu sylwadau.

Penderfynwyd rhoi caniatad i'r dymuniadau.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Nid oedd adroddiad.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (15/11/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyfarfod nesaf o Bwyllgor Ardal Meirionnydd ar Tachwedd 28 am 7.00yh yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau. Amgáu mae Agenda (bydd cyflwyniad gan gwmi yswiriant), Cofnodion cyfarfod Medi 26, a Chofnodion cyfarfod Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol yn Llanfair ym Mualt ar Medi 14.

b. Llythyr (20/11/2018) oddi wrth Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru. Mae gan gynghorau tref a chymuned gogledd Cymru gofynion ymwneud a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan gynwys llunio adroddiad blynyddol ar gyfer ein cymuned. Os mae diddordeb, mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru yn cynnal gweithdy i ystyried cynlluniau Llesiant yn Canolfan Gymunedol Bodelwyddan, Bodelwyddan ar Tachwedd 30 am 10.00yb.

c. Llythyr (29/11/2018) oddi wrth Dawns i Bawb. Maent angen cymorth arianol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

ch. Anfonwyd neges (29/11/2018) i Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bod wal wedi disgyn i'r ffordd yn Taicynhaef ac iddynt ei drwsio.

d. Anfonwyd cerdyn cydymdeimlad i Mrs Rhiannon Causer, merch y diweddar Mr Edward Owen Williams pwy oedd yn ffyddlon iawn i'r Cyngor.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION RHAGFYR 11, 2018

dd. Llythyr (3/12/2018) oddi wrth Cwmni Bara Caws Cyf. Maent angen cymorth arianol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

e. Llythyr (4/12/2018) oddi wrth Calonnau Cymru. Maent angen cymorth arianol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Llythyr (16/11/2018) oddi wrth Alan Edwards, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybodaeth ar linellau yn y lle parcio yn Llanelltyd. Amgáu mae dogfen 'Stage 3 Road Safety Audit Report Gwynedd Council' Anfonwyd y llythyr a'r dogfen ymlaen i'r aelodau.

Cafwyd cyfarfod ar y safle gyda Manon Griffiths, Cyngor Gwynedd.

Roedd awgrym cael Swyddog o'r Heddlu i ein cyfarfod i drafod diogelwch wrth yr ysgol.

b. Gyda sefyllfa ariannol yn ddyrys gyda Cyngor Gwynedd mae pryder gyda'r gwasanaethau bydd yn ei roi.

10. Materion Brys

a. Mae angen cadarnhau a chofnodi Cod Ymddygiad. Anfonwyd copi o'r ddogfen i'r aelodau.

Penderfynwyd cymeradwyo'r Cod Ymddygiad. Diolchwyd i Elfed ap Gomer am baratoi'r ddogfen.

b. Mae angen cadarnhau a chofnodi Rheoliadau Cyllidol. Anfonwyd copi o'r ddogfen i'r aelodau.

Penderfynwyd cymeradwyo'r Rheoliadau Cyllidol. Diolchwyd i Elfed ap Gomer am baratoi'r ddogfen.

c. Mae angen cadarnhau a chofnodi Contract Cyflogaeth y Clerc

Penderfynwyd cymeradwyo'r Contract Cyflogaeth y Clerc.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION RHAGFYR 11, 2018

d. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen:

i. llenwi twll sydd yn wyneb y ffordd ar gyffordd Llanfachreth / y ffordd i hen bont Llanelltyd h.y. wrth fynedfa llwybr cyhoeddus i'r golff.

ii. torri y tamaid postyn sydd ar wyneb y llwybr cyhoeddus wrth fynedfa i'r golff.
